# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR

# CEREDIGION

## Adroddiad Rheoli Perfformiad

**Chwarter: 1**

**1.4.21 – 30.6.21**

| **CYNNWYS:** | **TUDALEN** |
|---|---|
| ADRAN 1:<br>Cyflwyniad | 3 |
| ADRAN 2:<br>Prif Ddata a Data Cymharol | 4 |
| ADRAN 3:<br>Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant | 5 |
| ADRAN 4:<br>Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant | 9 |
| ADRAN 5:<br>Cynadleddau Amddiffyn Plant | 11 |
| ADRAN 6:<br>Y Gofrestr Amddiffyn Plant | 18 |
| ADRAN 7:<br>Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig | 21 |
| ADRAN 8:<br>Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE) | 22 |
| ADRAN 9:<br>Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC) | 23 |
| ADRAN 10:<br>Gwasanaethau Dysgu | 26 |
| ADRAN 11:<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 31 |
| ADRAN 12:<br>Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS) | 34 |
| ADRAN 13:<br>Diogelu Oedolion | 42 |

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2021. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod y wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:

Elizabeth Upcott
Rheolwr Corfforaethol Diogelu,
Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk
01545 574212

## ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol

| **Canlyniadau'r Atgyfeiriadau** | **Ebrill-Meh 2021** | **Ion-Maw 2021** | **Hyd-Rhag 2020** | **Gorff-Medi 2020** | **Ebrill-Meh 2020** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau / Atgyfeiriadau sy'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant | 116 | 99 | 102 | 92 | 85 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau trosglwyddo a chyn geni) | 8 | 3 | 13 | 10 | 5 |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant Cyn Geni | 1 | - | 1 | 2 | 2 |
| Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant | - | 1 | - | - | - |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys cynadleddau trosglwyddo a chyn geni)** | **9** | **4** | **14** | **12** | **7** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol / Cyn Geni / Trosglwyddo** | **18** | **9** | **20** | **23** | **9** |
| | | | | | |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau cyn geni a throsglwyddo) | 17 | 4 | 15 | 18 | 7 |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | 1 | - | 1 | 2 | 2 |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | - | 3 | - | - | - |
| **Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynnol** | **18** | **7** | **16** | **20** | **9** |
| Cyfanswm y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | - | 2 | 4 | 3 | - |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **12** | **18** | **17** | **16** | **19** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **24** | **35** | **39** | **26** | **42** |
| **Cyfanswm y plant sy'n dal ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **7** | **11** | **18** | **11** | **24** |
| Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 17 | 24 | 21 | 15 | 18 |

## Dadansoddiad:

Roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at weithredu o dan Ganllawiau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn ac yn ystod y chwarter hwn y flwyddyn flaenorol.
Canran y plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu ac a gafodd eu datgofrestru oedd 71%.


## ADRAN 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant


Mae Argymhelliad 39 Ymchwiliad Victoria Climbie yn ei gwneud hi'n ofynnol i staff ar y rheng flaen i drosglwyddo ymholiadau am ddiogelwch a llesiant plant i'r tîm priodol yn ddi-oed ac o fewn yr awr. Yng Ngheredigion mae'r Porth Gofal yn derbyn ac yn cofnodi pob galwad gan y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau ac yn eu trosglwyddo i'r Tîm Asesu a Chymorth i Blant a Theuluoedd.

**Mae'r tabl canlynol yn dangos lefel cydymffurfio â'r argymhelliad:**

| Lefel | Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr | Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr | Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | | | | |
| 1 | 45 | 7 | 33 | 85 |
| 2 | 36 | 10 | 16 | 62 |
| 3 | 42 | 7 | 6 | 55 |
| 4 | 26 | 10 | 0 | 36 |
| 5 | 4 | 0 | 0 | 4 |
| **Lefel** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr** | **Cyfanswm** |
| **Mai** | | | | |
| 1 | 58 | 12 | 32 | 102 |
| 2 | 42 | 22 | 14 | 78 |
| 3 | 91 | 24 | 18 | 133 |
| 4 | 49 | 5 | 5 | 59 |
| 5 | 5 | 0 | 0 | 5 |
| | | | | **Cyfanswm** |
| **Mehefin** | | | | |
| 1 | 47 | 14 | 51 | 112 |
| 2 | 40 | 24 | 17 | 81 |
| 3 | 79 | 42 | 22 | 143 |
| 4 | 20 | 2 | 0 | 22 |
| 5 | 0 | 1 | 0 | 1 |

| Ffynonellau'r Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a'r nifer a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cysylltwyd gan** | **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 4 |
| Yr Heddlu | 11 | 17 | 16 | **44** | **45** |
| Addysg | 9 | 13 | 15 | **37** | **13** |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Mewnol | 5 | 11 | 6 | **22** | **20** |
| Iechyd | | 5 | 3 | **8** | **4** |
| Arall | 1 | | 1 | **2** | **3** |
| Awdurdod Lleol Arall | | 1 | | **1** | **5** |
| Asiantaethau Gwirfoddol | | 1 | | **1** | **3** |
| Tai | 1 | | | **1** | **-** |
| Perthynas/ffrind/aelod o'r gymuned | | | | | **5** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWF) | | | | | **1** |
| Gwasanaeth Prawf / Cwmni Adsefydlu Cymunedol | | | | | **-** |
| CAFCASS | | | | | **-** |
| Meddyg Teulu | | | | | **-** |
| Gwasanaeth Ieuenctid | | | | | **-** |
| Adrodd am eu hunain | | | | | **-** |
| Ymddiriedolaeth Ambiwlans Gorllewin Cymru (WAST) | | | | | **-** |
| **Cyfanswm** | **27** | **48** | **41** | **116** | **99** |







## **Dadansoddiad:**

Yr Heddlu yw'r ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau o hyd yn ystod y chwarter hwn, fodd bynnag, cynyddodd y gyfradd ysgolion yn sylweddol ar ôl i'r ysgolion ailagor ar ddechrau'r chwarter hwn.

| **Cyfeiriadau Post yr Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth Rhan 3** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tref Agosaf yn ôl Cyfeiriad Post** | **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 4 |
| Aberystwyth | 11 | 16 | 13 | **40** | **39** |
| Aberteifi | 3 | 6 | 14 | **23** | **19** |
| Llanbedr Pont Steffan | 2 | 6 | 5 | **13** | **14** |
| Llandysul | 4 | 1 | 4 | **9** | **6** |
| Tregaron | 2 | 5 | 1 | **8** | **-** |
| Aberaeron | 1 | 4 | 1 | **6** | **7** |
| Cei Newydd | 1 | 4 | 1 | **6** | **4** |
| Castellnewydd Emlyn (Ceredigion) | 3 | 2 | | **5** | **4** |
| Sir arall | | 3 | 2 | **5** | **4** |
| Aber-porth | | 1 | | **1** | **2** |
| Arall | | | | **-** | **-** |
| **Cyfanswm yr Atgyfeiriadau** | **27** | **48** | **41** | **116** | **99** |




## <u>Dadansoddiad:</u>


Aberystwyth yw'r ardal lle y ceir y nifer fwyaf o atgyfeiriadau yn gyson.

| **Dadansoddiad yn ôl % o Weithgarwch Diogelu<br>Chwarter 1 2021/2022 (1 Ebrill – 30 Mehefin)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm o 978 – Yr Holl Gysylltiadau Cychwynnol ynghylch Plant | | | |
| Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol (NAET) a neilltuwyd i'r Timau Plant –<br>Dim gwybodaeth ar gael | Trafodaethau Strategaeth<br>12% | Ymholiadau Adran 47 -<br>7% | Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant -<br>1% |


## ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant

| Nifer y Trafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant Rhan 3 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 4 |
| 27 (31) | 48 (31) | 41 (37) | 116 | 99 |

| Asiantaethau sy'n cynnal Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 4 |
| Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu | 18 | 24 | 8 | **50** | **38** |
| Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel un asiantaeth | - | 5 | 1 | **6** | **4** |
| Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan yr Heddlu fel un asiantaeth | 2 | 2 | 5 | **9** | **3** |
| **Cyfanswm yr Ymholiadau** | **20** | **31** | **14** | **65** | **45** |



| Categorïau'r Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** | **Cyfanswm** | Data cymharol Chwarter 4 |
| Cam-drin / Camfanteisio'n Rhywiol | 4 | 13 | 8 | 25 | 16 |
| Cam-drin Corfforol | 9 | 10 | 5 | 24 | 17 |
| Esgeulustod | 1 | 7 | 2 | 10 | 8 |
| Cam-drin Emosiynol | 4 | 1 | 1 | 6 | 4 |
| **Cyfanswm yr Ymholiadau** | **18** | **31** | **16** | **65** | **45** |





| Cyfweliadau Fideo | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** | **Cyfanswm** | Data cymharol Chwarter 4 |
| **Nifer y cyfweliadau fideo â phlant** | | | | **-** | **-** |

**Dadansoddiad:**
Y pryderon mwyaf a arweiniodd at gynnal ymholiadau amddiffyn plant oedd honiadau o gam-drin/camfanteisio'n rhywiol a cham-drin corfforol.
Cynhaliwyd y mwyafrif o'r ymholiadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.


## ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant

| **Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chanlyniadau Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | Nifer y plant | Nifer y plant heb eu geni | Nifer y teuluoedd | Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gan gynnwys rhai heb eu geni a rhai a drosglwyddwyd | Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth os na chofrestrwyd |
| 9 | 17 | 1 | 9 | 18 | - |

**Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 94.4% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth. Roedd oedi yn achos 1 Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant er mwyn galluogi'r Heddlu i fod yn bresennol.
Mae'n bwysig nodi bod yr holl Gynadleddau Cychwynnol ac Adolygu Achos yn cael eu cynnal yn rhithiol trwy Microsoft Teams. Bu modd i rieni a phlant gymryd rhan yn y cyfarfodydd.




**Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 88.9% o Gyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant. Mae hyn yn cynrychioli 16 allan o 18 o blant. Yn achos 1 person ifanc roedd yn rhaid aildrefnu'r Grŵp Craidd oherwydd bod problemau cysylltu ar ddiwrnod y cyfarfod; yn achos y person ifanc arall cafodd y Grŵp Craidd ei oedi oherwydd argaeledd yr asiantaeth.




| Mae'r tabl hwn yn dadansoddi canlyniadau'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn ôl niferoedd: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant** | **Nifer y teuluoedd** | **Nifer y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant a gafodd eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth yn dilyn datgofrestru** |
| 12 | 24 | 12 | 7 | 17 | 16 |

**Canlyniadau'r Adolygiadau:**
O'r 17 o blant a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 8 ymyrraeth bellach drwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth; roedd 8 yn destun Gorchymyn Llys ac yn Blant sy'n Derbyn Gofal ac nid oedd angen unrhyw wasanaethau ar 1 person arall.

**Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 79.2% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser. Yn achos 1 plentyn ni ddilynwyd amserlen y Gynhadledd oherwydd absenoldeb salwch y Cadeirydd Annibynnol; yn achos 1 plentyn arall roedd hyn oherwydd salwch y Gweithiwr Cymdeithasol. Yn achos 1 grŵp o 2 blentyn, roedd dryswch ynghylch dyddiad y Gynhadledd a gafodd ei haildrefnu ond oedd y tu allan i'r terfyn amser yn anffodus. Roedd y Gynhadledd Adolygu ar gyfer 1 plentyn arall y tu allan i'r terfyn amser hefyd oherwydd argaeledd y teulu a'r gweithwyr proffesiynol. Cafodd yr holl Gynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant eu haildrefnu i'w cynnal cyn gynted â phosibl; roedd y cynadleddau adolygu 11 diwrnod yn hwyr ar gyfartaledd a chafodd pob un o'r 5 plentyn a gafodd ei adolygu eu datgofrestru yn y Gynhadledd Adolygu.




| **Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant<br>*Data cymharol Chwarter 4 mewn cromfachau** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol i rieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cyfleu barn plant mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant pan nad oeddent yn bresennol (5-18 oed)** | ***Presenoldeb plant yn y Cynhadledd Amddiffyn Plant (11 oed neu'n hŷn)** | ***Plant y penodwyd Eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer** |
| 100% (100%) | 95% (100%) | 100% (80%) | 95%(100%) | 90% (91%) | 12% (42%) | 63% (76%) |

**Cyfranogiad a Phresenoldeb Plant a Theuluoedd mewn Cynadleddau:**


**Presenoldeb rhieni, plant ac aelodau'r teulu:**
Roedd o leiaf 1 rhiant / taid neu nain â chyfrifoldeb rhieni yn bresennol mewn 20 o Gynadleddau Amddiffyn Plant (95%).
Roedd cyfanswm o 33 o rieni ac aelodau eraill o'r teulu yn bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant.

**Mae barn y plant a'r bobl ifanc wedi cael eu cynrychioli cyn ac yn ystod y Gynhadledd Amddiffyn Plant:**
Roedd cyfanswm o 41 o blant o 20 o deuluoedd yn destun Cynadleddau Cychwynnol, Cyn Geni, Trosglwyddo ac Adolygu Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter hwn.
Roedd y cynadleddau yn cynnwys 1 (2%) plentyn cyn geni, 1 (2%) plentyn oedd yn iau na 6 mis oed, 1 (2%) plentyn oedd rhwng 6 a 12 mis oed, 7 (17%) plentyn oedd yn hŷn na blwydd oed ac yn iau na 5 oed, 15 (36%) plentyn oedd rhwng 5 a 10 mlwydd oed, a 17 (41%) plentyn oedd rhwng 11 a 18 mlwydd oed.
Mynegwyd barn 12 (80%) plentyn a oedd rhwng 5 ac 11 mlwydd oed yn y Gynhadledd.

Roedd 2 (12%) berson ifanc yn hŷn nag 11 mlwydd oed wedi mynychu eu Cynhadledd, ac roedd y ddau (100%) o'r bobl ifanc hyn wedi cwrdd â'r Cadeirydd cyn y Gynhadledd; nid oedd y Cadeirydd wedi cwrdd ag unrhyw un o'r bobl ifanc hyn ar ôl y Gynhadledd. Cafodd barn pob un o'r 15 (100%) o bobl ifanc oedd heb fynychu'r Cynadleddau ei chynrychioli yn y Gynhadledd.
Derbyniodd 20 (63%) o'r bobl ifanc a oedd yn hŷn na 5 mlwydd oed wasanaethau eiriolwr, cafodd 8 eu hatgyfeirio am wasanaeth, ond ni chafodd gwasanaeth ei dderbyn; roedd angen atgyfeirio 4 person ifanc arall at y gwasanaeth.

**Dadansoddiad**
Roedd o leiaf 1 aelod o'r teulu yn bresennol yn 95% o'r Cynadleddau.
Yn ystod y cyfnod hwn bu gostyngiad yn nifer y plant a drafodwyd mewn Cynadleddau a gafodd gynnig gwasanaeth eiriolwr.


| **Crynodeb o'r Peryglon Pennaf/Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a nodwyd ac a drafodwyd yn y Cynadleddau Amddiffyn Plant** | |
|---|---|
| Mae'r tabl hwn yn seiliedig ar werthusiad y Cadeirydd Annibynnol o'r peryglon pennaf mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant lle rhoddwyd enwau'r plant dan sylw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant lle roedd enwau'r plant yn aros ar y gofrestr. | |
| **Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 29 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 30 Mehefin 2021** | |
| Cam-drin Domestig (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 21 (72.4%) |
| Rhieni ddim yn cydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant | 15 (51.7%) |
| Rhieni'n gwahanu wedi bod yn broblem yn y cartref (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 13 (44.8%) |
| Anawsterau iechyd meddwl y rhieni (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 13 (44.8%) |
| Troseddau treisgar gan oedolion | 10 (34.5%) |
| Person ifanc yn ymddwyn mewn ffyrdd peryglus / yn camddefnyddio sylweddau | 10 (34.5%) |
| Rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 7 (24.1%) |
| Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant | 7 (24.1%) |
| Mam, tad neu bartner wedi bod yn y carchar (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 5 (17.2%) |
| Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i ddiogelu plant hŷn yn y teulu | 3 (10.3%) |
| Anableddau dysgu'r rhieni | 2 (6.9%) |
| Troseddau gan oedolion yn erbyn plant | 0 (%) |






| Y Tri Perygl Pennaf Tocsig ar gyfer y 29 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 30 Mehefin 2021 | | |
|---|---|---|
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Tri Pherygl Tocsig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl y Rhieni) | 6 | 20.7% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu Garchariad yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 14 | 48.3% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl y Rhieni, Rhieni'n Gwahanu a Charchariad) | 4 | 13.8% |

**Dadansoddiad:**
Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni ddim yn cydweithredu â'r cynllun, rhieni'n gwahanu, rhieni'n camddefnyddio sylweddau ac anawsterau iechyd meddwl y rhieni.

## Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:



Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd estynnwyd gwahoddiad i 6 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd a bu 4 yn bresennol.

Roedd 5 adroddiad ysgrifenedig ar gyfartaledd ar gael ym mhob Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Trefnwyd dyddiad ar gyfer Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant ym mhob cynhadledd pan oedd ei angen.

Roedd cworwm ymhob un o'r 21 (100%) Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Mewn 1 (5%) Cynhadledd Amddiffyn Plant argymhellwyd galw cyfarfod Grŵp Teulu.

Darparodd Gweithwyr Cymdeithasol adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer pob un o'r 21 (100%) cynhadledd. Roedd pop un (100%) o'r adroddiadau a gyflwynwyd mewn Cynadleddau Cychwynnol yn cynnwys cronoleg.

Mynegodd 21 (100%) o weithwyr proffesiynol / asiantaethau eu barn am gofrestru a lefel y perygl ymhob cynhadledd.

Roedd 36 (86%) o benderfyniadau cofrestru Cynhadledd Amddiffyn Plant yn ddienw gyda 6 (14%) o gofrestriadau Cynhadledd Amddiffyn Plant yn benderfyniad mwyafrif.

Roedd 0 (0%) Cynhadledd Amddiffyn Plant wedi nodi bod anghytuno ynghylch diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant ar gyfer diogelu llesiant plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Mewn 4 (19%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gofalwr ifanc.

Mewn 4 (19%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.

Mewn 1 (5%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anabledd dysgu cymedrol / difrifol; ac mewn 6 (29%) cynhadledd nodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Datblygu Unigol.


Mewn 0 (0%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anabledd corfforol/nam ar y synhwyrau, ac mewn 7 (33%) nodwyd bod gan y person ifanc broblemau ymddygiad.


Mewn 7 (33%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anawsterau lleferydd/iaith, ac ni chofnodwyd mewn unrhyw gynhadledd (0%) bod y plant wedi'u gwahardd o'r ysgol.


## ADRAN 6: Cofrestr Amddiffyn Plant


**Mae'r tabl a'r siart isod yn dangos data a thueddiadau'r Gofrestr ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.**

| Y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y teuluoedd o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y plant wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Cyfanswm y plant wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Cyfanswm y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Cyfanswm y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd yn Blant sy'n Derbyn Gofal |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 30 Mehefin 2021 | 29 | 15 | 13 | 6 | 42 | 21 | 4 |
| 31 Mawrth 2021 | 29 | 16 | 12 | 6 | 41 | 22 | 5 |
| 31 Rhagfyr 2020 | 46 | 24 | 7 | 5 | 53 | 29 | 5 |
| 30 Medi 2020 | 50 | 22 | 4 | 3 | 54 | 25 | 1 |
| 30 Mehefin 2020 | 46 | 24 | 4 | 2 | 50 | 26 | 4 |
| 31 Mawrth 2020 | 55 | 26 | 10 | 4 | 65 | 30 | 2 |
| 31 Rhagfyr 2019 | 35 | 20 | 12 | 5 | 47 | 25 | 3 |
| 30 Medi 2019 | 52 | 27 | 7 | 3 | 59 | 30 | 4 |
| 30 Mehefin 2019 | 55 | 31 | 10 | 5 | 65 | 36 | 3 |
| 31 Mawrth 2019 | 74 | 40 | 4 | 3 | 78 | 44 | 5 |
| 31 Rhagfyr 2018 | 53 | 32 | 2 | 2 | 55 | 34 | 4 |
| 30 Medi 2018 | 58 | 36 | 9 | 7 | 67 | 43 | 3 |




Oedran a Rhyw Plant Ceredigion (29) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 30 Mehefin 2021
10
8
6
4
2
0
1
4
2
6
5
9
1
1
o dan 1 oed
1-4 oed
5-9 oed
10-15 oed
16-18 oed
Gwryw (Cyfanswm o 11)
Benyw (Cyfanswm o 18)


Hyd yr amser y bu Plant Ceredigion (29) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 30 Mehefin 2021
20
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
19
10
0
0
o dan 6 mis
6-12 mis
1-2 oed
Dros 2 oed


Y Categori Cofrestru ar gyfer Plant Ceredigion (29) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 30 Mehefin 2021
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
17
9
3
0
0
Cam-drin emosiynol neu seicolegol
Esgeulustod
Cam-drin rhywiol
Cam-drin corfforol
Esgeulustod a Cham-drin emosiynol neu seicolegol

| Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd y bu pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant: | | |
|---|---|---|
| Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn eu datgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw | Ebrill-Mehefin | 211 |

| | Ebrill-Meh 2021 | Ion-Maw 2021 | Hyd-Rhag 2020 | Gorff-Medi 2020 | Ebrill-Meh 2020 | Ion-Maw 2020 | Hyd-Rhag 2019 | Gorff-Medi 2019 | Ebrill-Meh 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd y 10,000 o blant o dan 18 oed** | 23 | 23 | 36 | 39 | 36 | 42 | 27 | 40 | 42 |

| Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynadleddau Cychwynnol** | **Ebrill-Meh 2021** | **Ion-Maw 2021** | **Hyd-Rhag 2020** | **Gorff-Medi 2020** | **Ebrill-Meh 2020** | **Ion-Maw 2020** | **Hyd-Rhag 2019** | **Gorff-Medi 2019** |
| Nifer y plant a fu ar y gofrestr o'r blaen ac a ddatgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 5 |

**Dadansoddiad**

Mae nifer y plant ar y Gofrestr ar ddiwedd y cyfnod yn cyfateb â'r chwarter blaenorol. Datgofrestrwyd 17 o blant oedd yn cynnwys 1 teulu gyda 4 o blant, 2 deulu gyda 3 o blant, ac 1 teulu gyda 2 o blant a 5 teulu gydag un plentyn. Fodd bynnag, cafodd 17 o blant eu cofrestru mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant gyda phlentyn arall i'w gofrestru adeg ei eni. Roedd nifer y plant yn y teuluoedd hyn yn cynnwys 1 teulu gyda 6 o blant, 1 teulu gyda 4 o blant, 1 teulu gyda 2 o blant, 5 teulu pellach gydag 1 plentyn, ac 1 teulu gyda phlentyn heb ei eni i'w gofrestru adeg ei eni.

Y categori cofrestru mwyaf yw cam-drin emosiynol ac esgeulustod sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cam-drin domestig yw un o'r peryglon pennaf.

Mae'r mwyafrif o blant ar y Gofrestr am gyfnod o hyd at 6 mis.

Mae nifer y merched ar y Gofrestr yn parhau'n uwch na nifer y bechgyn.

Y categori oedran cofrestru mwyaf o hyd yw plant 10-15 mlwydd oed.

## ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o dan Rannau 4 a 5 o Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Atgyfeiriwyd 21 o blant a chynhaliwyd cyfanswm o 22 o gyfarfodydd strategaeth yn ystod y chwarter.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Strategaeth ar gyfer 4 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion a 2 Blentyn sy'n Derbyn Gofal o Awdurdod Lleol arall.

Adroddwyd bod 1 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion sydd wedi'i leoli y tu allan i'r sir wedi bod yn destun Ymholiadau Amddiffyn Plant yn ardal y lleoliad.

| Categori o Gyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant (Amgylchiadau Penodol) | Ebrill Cyfarfodydd a gynhaliwyd | Mai Cyfarfodydd a gynhaliwyd | Mehefin Cyfarfodydd a gynhaliwyd | Cyfanswm yr achosion |
|---|---|---|---|---|
| Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant | 3 | 1 | 2 | **5** |
| Pryderon am berson sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rhinwedd ei swydd | 1 | 7 | 2 | **7** |
| Pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol | 1 | 2 | 2 | **4** |
| Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll o ofal maeth | 0 | 0 | 1 | **1** |
| **Cyfanswm y cyfarfodydd** | **5** | **10** | **7** | |
| **Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn ystod y chwarter dan sylw** | | | | **17** |

## ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)

| Achos Newydd / Adolygu | Ymadael / Aros yn MACSE | Gwryw / Benyw | Oedran | Yn y cartref / mewn gofal | Cofrestr Amddiffyn Plant | Dyddiad y cyfarfod | Presenoldeb Asiantaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Ymadael | B | 13 | C | Ie | 30.04.21 | CFAST, Addysg, Yr Heddlu |
| A | Ymadael | G | 17 | C | Na | 14.05.21 | CFAST, Coleg, Yr Heddlu, YJPS, Tai |
| A | Ymadael | B | 16 | C | Ie | 16.04.21 | CFAST, CAMHS, Yr Heddlu, YJPS, Tai |
| A | Ymadael | B | 16 | C | Na | 11.06.21 | CFAST, CAMHS, Yr Heddlu, YJPS |
| A | Parhau | G | 15 | C | Na | 26.05.21 | CFAST, Iechyd, Yr Heddlu, Tîm o Amgylch y Teulu, Yr Heddlu, Addysg, YJPS |

Ni ddaeth unrhyw achosion newydd i'r cyfarfodydd MACSE yn ystod Chwarter 1 ond roedd 5 achos i'w hadolygu.  Roedd 3 achos yn fenywod 13 – 16 oed ac roedd 2 achos yn wrywod 15 – 17 oed.  Mae dau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, nid yw unrhyw un ohonynt yn Blant sy'n Derbyn Gofal.

## ADRAN 9: Adroddiad yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)

**Ebrill**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | 230 o achosion |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a arweiniodd at gam adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | 125 o achosion wedi'u hadolygu<br>75 o achosion wedi deillio |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol** | 155 o achosion wedi'u trafod<br>133 o achosion wedi deillio |
| **Achosion aeth i MARAC** | 22 o achosion |
| **Canran yr achosion (Un o feini prawf cyffredinol MARAC)** | 32.6% wedi arwain at adolygiad MRE<br>57.8% wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol<br>9.5% wedi mynd i MARAC |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth** | Sir Gaerfyrddin – 85<br>Ceredigion – 31<br>Sir Benfro – 55<br>Powys – 59 |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | Cyfanswm – 243<br>Sir Gaerfyrddin – 73<br>Ceredigion – 21<br>Sir Benfro – 80<br>Powys – 69 |

| | **Wedi arwain at MRE** | **Wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 32 | 45 | 8 | **(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)** | 12 awr 30 munud |
| Sir Benfro | 20 | 30 | 5 | | 8 awr 30 munud |
| Ceredigion | 8 | 21 | 2 | | 5 awr 00 munud |
| Powys | 15 | 37 | 7 | | 9 awr 00 munud |

**Mai**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | 250 o achosion |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a arweiniodd at gam adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | 123 o achosion wedi'u hadolygu<br>85 o achosion wedi deillio |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol** | 165 o achosion wedi'u trafod<br>142 o achosion wedi deillio |
| **Achosion aeth i MARAC** | 24 o achosion |
| **Canran yr achosion (Un o feini prawf cyffredinol MARAC)** | 34% wedi arwain at adolygiad MRE<br>56.8% wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol<br>9.6% wedi mynd i MARAC |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth** | Sir Gaerfyrddin – 100<br>Ceredigion – 29<br>Sir Benfro – 65<br>Powys – 56 |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | Cyfanswm – 253<br>Sir Gaerfyrddin – 109<br>Ceredigion – 21<br>Sir Benfro – 63<br>Powys – 60 |

| | **Wedi arwain at MRE** | **Wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC** (*10 munud yr achos ar gyfartaledd) | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 38 | 55 | 7 | | 15 awr 30 munud |
| Sir Benfro | 23 | 40 | 3 | | 10 awr 50 munud |
| Ceredigion | 8 | 14 | 7 | | 4 awr 00 munud |
| Powys | 16 | 33 | 7 | | 8 awr 10 munud |

**Mehefin**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | 319 o achosion |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a arweiniodd at gam adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | 171 o achosion wedi'u hadolygu<br>132 o achosion wedi deillio |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol** | 187 o achosion wedi'u trafod<br>163 o achosion wedi deillio |
| **Achosion aeth i MARAC** | 24 o achosion |
| **Canran yr achosion (Un o feini prawf cyffredinol MARAC)** | 41.4% wedi arwain at adolygiad MRE<br>51.1% wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol<br>7.5% wedi mynd i MARAC |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth** | Sir Gaerfyrddin – 85<br>Ceredigion – 31<br>Sir Benfro – 55<br>Powys – 59 |

| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | Cyfanswm – 355<br>Sir Gaerfyrddin – 136<br>Ceredigion – 37<br>Sir Benfro – 121<br>Powys – 61 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Wedi arwain at MRE** | **Wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC**<br>**(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)** | |
| Sir Gaerfyrddin | 53 | 63 | 10 | | 19 awr 30 munud |
| Sir Benfro | 42 | 43 | 5 | | 14 awr 10 munud |
| Ceredigion | 18 | 23 | 5 | | 7 awr 10 munud |
| Powys | 19 | 34 | 4 | | 8 awr 50 munud |

## ADRAN 10: Gwasanaethau Dysgu

**ADRODDIAD LOG GWASANAETHAU YSGOLION**

**BWLIO**

Mae data bwlio yn parhau i gael eu casglu yn dymhorol ym mhob cyfarfod Corff Llywodraethu ysgolion. Gweler isod y data a gasglwyd yn nhymor yng Ngwanwyn 2021 a gasglwyd yn ystod y tymor blaenorol sef tymor yr Haf 2021.

| Math o Fwlio | Gwanwyn 2021 |
|---|---|
| Gallu | 1 |
| Oedran | 0 |
| Edrychiad | 0 |
| Bioffobig | 0 |
| Anabledd | 0 |
| Rhyw | 0 |
| Homoffobig | 0 |
| Plentyn syn Derbyn Gofal | 0 |
| Anneuaidd | 0 |
| Beichiogrwydd neu Famolaeth | 0 |
| Hiliol | 0 |
| Crefydd neu Gred | 0 |
| Rhywiol | 0 |
| Trawsffobig | 0 |
| Gofalwr Ifanc | 0 |
| E-ddiogelwch | 0 |
| Eraill | 1 |
| **Cyfanswm** | 2 |

Yn ystod Gwanwyn 2020, cofnodwyd 43 achosion o fwlio, sydd felly'n cynrychioli gostyngiad sylweddol mewn adrodd/cofnodi. Mae pob Ysgol, ond un, wedi ymateb gyda'u data ar gyfer y tymor hwn.

**HYFFORDDIANT**

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig a dyma nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod cyfnod chwarter 4. Yn ogystal, mae nifer y staff sydd wedi cwblhau lefel 2 Amddiffyn Plant yn rhithiol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i nodi isod.

| | |
|---|---|
| Lefel 1 | 379 (mewnol)<br>40 (allanol) |
| Lefel 2 | 47 (mewnol)<br>10 (allanol) |

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

Mae 82 aelod o staff mewnol a 6 aelod o staff allanol wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein VAWDASV yn ystod cyfnod chwarter 1.

**ADDYSG DDEWISOL GARTREF**


| **Nifer y plant rydych yn ymwybodol ohonynt sydd yn cael eu haddysgu'n ddewisol gartref** | **Nifer y plant Addysg Ddewisol Gartref sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol sydd wedi cael cynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf** | **Canlyniad** |
|---|---|---|
| 241 (lleihad o 17 ers y cyfnod diwethaf) | 97 (cynnydd o 17 ers y cyfnod diwethaf) | Wedi gwrthod – 22<br>Heb fynychu – 28 |


**PLANT MEWN GOFAL**


| | |
|---|---|
| Plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion o oedran ysgol statudol | Ebrill – 47<br>Mai – 46<br>Mehefin – 48 |
| Plant sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i'r Sir o oedran ysgol statudol | Ebrill – 13<br>Mai – 13<br>Mehefin – 13 |
| Plant sy'n derbyn gofal o Awdurdodau Lleol eraill o oedran ysgol statudol | Ebrill – 38<br>Mai – 38<br>Mehefin – 38 |

**CYSYLLTIADAU YSGOLION**


Gweler isod nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ysgolion / sefydliadau dysgu a natur y cysylltiadau hynny yn ystod cyfnod Chwarter 1.



Ysgolion Uwchradd / Secondary Schools
40
35
30
25
20
15
10
5
0
Aberaeron
Aberteifi
Penglais
Penweddig
PRU


Ysgolion Canol / Middle Schools
30
25
20
15
10
5
0
Henry Richard
Bro Pedr
Bro Teifi


Ysgolion Cynradd / Primary Schools
14
12
10
8
6
4
2
0
Aberaeron
Aberporth
Aberteifi
Cei Newydd
Ciliau Parc
Llanarth
Llangwyryfon
Llannon
Llwyn-yr-Eos
Padarn Sant
Penparc
Plascrug
Rhydypennau
T Llew Jones
Talybont
Y Dderi
Ysgol Gymraeg

Sylwer, roedd 30 o ysgolion cynradd wedi cysylltu yn ystod chwarter 1, ond oherwydd y nifer uchel nid oedd modd cynnwys pob Ysgol ar un tabl.  Felly mae'r uchod yn nodi'r Ysgolion oedd wedi cysylltu fwy na dwywaith yn unig yn ystod y cyfnod.





Oherwydd y nifer fawr o resymau a roddwyd ar gyfer cysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn fwy eglur ar y siart.

| | |
|---|---|
| Arfau | |
| Cais am wybodaeth | |
| Cam-drin Domestig | |
| Corfforol | |

| | |
|---|---|
| E-ddiogelwch | Gan gynnwys camddefnydd ffonau symudol/rhyngrwyd. Anfon negeseuon/lluniau/fideos anweddus |
| Esgeulustod | Gan gynnwys amodau'r cartref, problemau ariannol a goruchwyliaeth |
| Gofal | |
| Iechyd a Diogelwch | |
| Iechyd Meddwl Disgyblion | Gan gynnwys cam-drin emosiynol. |
| Iechyd Meddwl Rhieni | |
| Lles | Gan gynnwys plant sydd ar goll, presenoldeb, tor-berthynas, gofalwyr ifanc, anawsterau cysylltu yn ystod y cyfnod clo, problemau cysylltu rhwng rhieni. |
| Materion Cyfreithiol | |
| Atal | |
| Rhywiol | Gan gynnwys perthnasoedd amrywiol a Cham-fanteisio'n Rhywiol ar Blant. |
| Sylweddau Disgyblion | Gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. |
| Sylweddau Rhieni | Gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. |
| Materion Traws | |
| Ymddygiad Disgybl | |
| Ymddygiad Rhiant | Gan gynnwys rhieni yn y carchar |
| Ymddygiad Staff | Gan gynnwys unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch ymddygiad aelod staff ysgolion a/neu sydd yn gysylltiedig ag ysgolion Ceredigion |



## ADRAN 11: Iechyd

**Adroddiad Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'r Grwpiau Gweithredol Lleol**

**Chwarter 1 2021/22**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Grwpiau Gweithredol Lleol am y datblygiadau o ran diogelu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod chwarter 1, 2021/22.

### Diogelu Oedolion


Mae'r Tîm Diogelu Oedolion yn falch i groesawu aelod newydd o'r tîm, Jodie Dennis, fel yr Ymarferydd Arbenigol Diogelu.

### Chwarter 1 2021/22 Archwiliad Niwed Pwyso y Gellir ei Osgoi Ysbyty Aciwt

Mae nifer yr achosion o niwed pwyso y gellir ei osgoi ar draws y 4 safle Ysbyty yn ystod Chwarter 1 yn gyfanswm o bedwar deg o achosion y gellir eu hosgoi. Mae hyn yn gynnydd o saith achos yn Chwarter 4 2020/21 ac yn ganlyniad rhannol i'r cyfarfodydd craffu ychwanegol a'r achosion o'r chwarteri blaenorol a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn.

- Roedd 32 o'r achosion a adroddwyd yn achosion gradd 1 neu 2, ac ni fyddai'r graddau hyn wedi'u hadrodd i'r Tîm Diogelu cyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- Cafodd 2 eu cofnodi fel gradd 3.
- Cafodd 5 eu cofnodi fel Niwed i Feinweoedd Dwfn (SDTI).
- Un SDTI/methu graddio. Golyga hyn nad oedd yr ymarferydd yn gallu rhoi gradd ar y pryd ac ni ddilynwyd y rhain i fyny. Gallai hyn fod oherwydd bod y claf yn dod at derfyn ei fywyd ac wedi marw cyn i natur y niwed ddod i'r amlwg, neu oherwydd bod y claf wedi symud o ddalgylch y Bwrdd Iechyd. Nid yw'n anghyffredin i niwed pwyso gael ei adrodd fel SDTI, ac yna o fewn ychydig ddyddiau daw i'r amlwg ei fod yn niwed gradd 1 neu 2.

Cyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), byddai'r achos SDTI/methu graddio wedi cael ei gyfeirio at y Tîm Diogelu ac o bosib rhai o'r grŵp SDTI.




**Diogelu Plant**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw'r unig Fwrdd Iechyd yn GIG Cymru sydd â Chronfa Ddata Rhannu Gwybodaeth Diogelu mewn Bydwreigiaeth. Mae'r system hon yn darparu dull diogel a chadarn ar gyfer rhannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol eraill a darparu llwybr archwilio sefydliadol.

Yn dilyn archwiliad ar gydymffurfio â'r Weithdrefn Rhannu Gwybodaeth Diogelu mewn Beichiogrwydd (SIP) yn 2020, mae datblygiadau pellach wedi cael eu rhoi ar waith ar Gronfa Ddata Diogelu mewn Bydwreigiaeth a'r weithdrefn gysylltiedig. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl famau beichiog sy'n cael mynediad at wasanaethau bydwreigiaeth yn cael eu cynnwys yn y broses rhannu gwybodaeth i ddarparu proses gyffredinol a chadarn, a sicrhau yr un pryd bod diogelu yn cael ei ystyried ym mhob achos.

Mae gweithdrefn y Bwrdd Iechyd wedi cael ei defnyddio i lywio templed arfer da ar gyfer Byrddau Iechyd eraill yn GIG Cymru.

Croesawodd y Tîm Diogelu aelod newydd o'r tîm, Bronwen Dart, Nyrs Arbenigol Diogelu.

**Plant sy'n Derbyn Gofal**

Cyflwynodd y Nyrs Arweiniol Plant sy'n Derbyn Gofal rôl y Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Cartrefi Preswyl i'r Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru yn Awst 2021. Roedd Jen Keenan Pugh wedi cynhyrchu fideo yn trafod rhai astudiaethau achos fel rhan o'r cyflwyniad.

Mae cynnydd yn cael ei wneud wrth roi WCCIS ar waith o fewn y Tîm Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal.

**Camfanteisio'n rhywiol ar blant / Cam-drin plant yn rhywiol**

Rydym yn trefnu i hyfforddiant pellach gael ei gyflwyno gan Stop it Now.

Mae cyflwyniad 7 munud ar Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol wedi cael ei ddosbarthu gyda dolenni at hyfforddiant a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac adnoddau cysylltiedig.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Cyflwynodd yr Ymarferydd Arweiniol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Diogelu weithdy Dysgu dros Ginio ar gam-drin domestig a phobl hŷn ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Cam-drin Pobl Hyn y Byd ar 15 Mehefin 2021 ac roedd nifer da yn bresennol.

Yn Sir Gaerfyrddin rydym yn gweithio gyda chydweithwyr Gofal Sylfaenol i symud ymlaen â gweithredu'r cynllun peilot IRIS sy'n mynd trwy'r broses dendro.

O fewn Ceredigion a Sir Benfro, mae'r Ymarferydd Arweiniol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Diogelu wedi datblygu cysylltiadau â sefydliadau trydydd sector sy'n awyddus i weithio gyda Gofal Sylfaenol i wella'r prosesau atgyfeirio lleol ar gyfer cleifion sy'n datgelu o fewn lleoliadau Gofal Sylfaenol.

Mae Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru (WWADAS) wedi cynnig mynychu arferion i ddarparu hyfforddant ac adnoddau a gwybodaeth am eu prosesau atgyfeirio. Caiff hyn ei ddarparu trwy'r cyfarfodydd clwstwr ac i bractisau unigol yn ôl y gofyn.

Yn Sir Benfro, mae'r gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol, Pobl,. hefyd wedi cytuno i ddarparu hyfforddiant i staff Gofal Sylfaenol. Maent hefyd yn ceisio symleiddio'r prosesau atgyfeirio yn benodol ar gyfer atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol.

**Cymhwysedd Diogelu**
Cafodd archwiliad ei gynnal i sefydlu cydymffurfiaeth â'r Llyfrynnau Cyflawni Cymhwysedd a ddefnyddir mewn Hyfforddiant Diogelu Plant ac Oedolion. Mae'r llyfrynnau yn ddull a ddefnyddir i ddarparu tystiolaeth i ddangos bod staff, yn ogystal â'r hyfforddiant ffurfiol, yn cwblhau addysg ychwanegol i arddangos y cymhwysedd gofynnol fel yr amlinellir yn y Dogfennau Rhyngolegol. Nododd yr archwiliad nifer o gyfleoedd ar gyfer gwella, ac mae llawer ohonynt wedi cael eu rhoi ar waith, tra bo eraill yn gofyn am ddull mwy hirdymor. Caiff yr archwiliad ei ailadrodd pan fydd newidiadau wedi cael eu hymgorffori'n briodol i ddarparu tystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd.

**Cylchlythyr Haf Diogelu**
Roedd y cylchlythyr haf wedi canolbwyntio ar bob math o gamfanteisio i godi ymwybyddiaeth holl weithwyr y Bwrdd Iechyd.

**Cynhadledd Nyrsio a Bydwreigiaeth**
Mae'r Tîm Diogelu Corfforaethol wedi cyflwyno pedwar bwrdd darlunio i Gynhadledd Nyrsio a Bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd sydd i'w gynnal 16 Medi 2021.

- Cronfa Ddata Rhannu Gwybodaeth Diogelu mewn Beichiogrwydd
- Rôl Swyddog Cymorth Cam-drin Domestig
- Darparu Hyfforddiant Diogelu Arloesol trwy Microsoft Teams
- Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Cartrefi Preswyl

## ADRAN 12: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)

### Adroddiad Diweddaru S-CAMHS ar gyfer CYSUR

Yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru "Canllawiau Derbyn", mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi rhoi Polisi / Llwybr Derbyn cadarn yn ei le yn amlinellu'r broses ar gyfer derbyn unrhyw berson ifanc i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r canllawiau yn datgan bod rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael Uned ddynodedig, ac o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr uned ddynodedig yw Ward Morlais ar gampws Ysbyty Glangwili.

Mae protocol newydd wedi cael ei gymeradwyo i fodloni'r gofyniad statudol hwn a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru.


Gall cael eich derbyn i ward iechyd meddwl oedolion fod yn brofiad brawychus a gwneir pob ymdrech i ystyried y dewis arall lleiaf cyfyngol ar gyfer derbyn cleifion. Yn y mwyafrif o achosion caiff person ifanc ei dderbyn i'r uned ddynodedig ar Ward Cilgerran wedi'i gefnogi gan staff o'r uned iechyd meddwl.


Yn unol â'r canllawiau, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar ddiogelu pobl ifanc ac, yn ogystal, mae staff ar Ward Morlais i gyd wedi cwblhau'r canlynol:

- Hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3
- Wedi derbyn tystysgrif DBS manylach dilys
- Wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014


Rhaid i bawb a dderbynnir i wely iechyd meddwl gael ei adrodd, yn fewnol i gychwyn, fel DATIX, a dilynir hyn gan adroddiad Digwyddiad Anffafriol Difrifol i'r Uned Gyflenwi yn unol â'r ddogfen Canllawiau Derbyn Llywodraeth Cymru.

**Chwarter 1 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais ar y Ward Iechyd Meddwl Oedolion ar safle Ysbyty Glangwili:**




**Chwarter 1 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais yn ôl rhyw:**





**Chwarter 1 Derbyniadau i wely'r Enfys / Morlais yn ôl ardal:**




**Derbyniadau i Wely Addas i Oedran Paediatreg (Uned yr Enfys, ddim yn adroddadwy)**

Mae cofnodion arbenigol CAMHS ar gyfer Chwarter 1 wedi'u hamlinellu uchod gyda chyfanswm o 8 wedi'u derbyn, gyda 4 wedi'u derbyn i'r gwely pediatrig a 4 wedi'u derbyn i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion (Morlais).

**Chwarter 1 Derbyniadau i Ward Enfys / Morlais wedi'i rannu yn ôl tîm derbyn:**




**Statws Iechyd Meddwl**

Cafodd 1 unigolyn ei dderbyn o dan Adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

**Canlyniadau Derbyn**

| | Wedi'i ryddhau i'w gartref | Ei dderbyn i ward arall | Aros ar y ward |
|---|---|---|---|
| **Yr Enfys** | 4 | 0 | 0 |
| **Morlais** | 3 | 1 | 0 |


**Derbyn cleifion hunan-niweidio**

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mae systemau cadarn yn eu lle i S-CAMHS ddarparu asesiad iechyd meddwl, yn dilyn atgyfeiriad gan y ward bediatrig, lle mae unrhyw berson ifanc yn cael ei dderbyn yn dilyn achos o hunan-niweidio. Yn gyffredinol y rheswm am ei dderbyn yw gorddos ond gall fod yn dilyn achos bwriadol o dorri'r croen neu geisio crogi ei hun.


Bydd pob achos o orddos/hunan-niweidio yn cael apwyntiad dilynol o fewn tri diwrnod gwaith i fonitro risg a darparu cymorth. Mae llwybr cadarn yn ei le ynghyd ag arweiniad ar gyfer derbyn yr holl bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn dilyn hunan-niweidio er mwyn gallu cytuno ar asesiad iechyd meddwl cynhwysfawr a rheoli risg. Lle y bo'n briodol, gellir ystyried atgyfeirio i'r tîm diogelu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion am y nifer a dderbyniwyd yn dilyn hunan-niweidio bwriadol Chwarter 4 2020-2021 ar gyfer y 3 Ardal Awdurdod Lleol:


**Chwarter 1 Ystadegau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw ac ardal:**





**Chwarter 1 Ystadegau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw a phroffil oedran:**



## Data Cymhariaeth (12 mis diwethaf) – Gwely Addas i'r Oedran





## Tueddiadau Derbyn yn ôl ardal (12 mis diwethaf)



**Cymhariaeth Derbyn Blynyddol yn ôl ardal**

Mae'r graff canlynol yn cymharu'r nifer a dderbyniwyd ar gyfer Chwarter 1 2021/2022 yn erbyn y nifer a dderbyniwyd ar gyfer yr un chwarter yn 2020/2021 a 2020/2019, wedi'i ddiffinio ymhellach yn ôl ardal.




## Eiriolaeth

Yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2012, disgwylir i'r Byrddau Iechyd sicrhau bod mynediad i Wasanaethau Eiriolaeth yn ei le, yn unol â Rhan 4 y Mesur, ar gyfer unrhyw unigolyn a dderbynnir i'r ysbyty. Gofynnir i bob person ifanc a dderbynnir i Ward Morlais a hoffent gael mynediad i Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Y targed perfformiad disgwyliedig yw bod 100% o gleientiaid yn cael cynnig hyn a bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hadrodd trwy ein Dadansoddwr Gwybodaeth.

Ar Ward Cilgerran mae gwybodaeth yn cael ei darparu i bobl ifanc pan gânt eu derbyn ar argaeledd mynediad at y Gwasanaeth Eiriolaeth. Fodd bynnag, nid yw'r safon perfformiad uchod yn gymwys, felly nid yw data yn cael eu casglu fel mater o arfer.

Angela Lodwick Pennaeth S-CAMHS – Gorffennaf 2021

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR

# CEREDIGION

## Adroddiad Rheoli Perfformiad – Diogelu Oedolion

**Chwarter: 1**

**1.4.21 – 30.6.21**